# Y Pwyllgor Deisebau

## PET(3)02-08 (p11): 31 Ionawr 2008

### Cyfeirnod y ddeiseb P-03-086: Dwbl y dreth gyngor ar gyfer cartrefi gwyliau

### Diben

Gofynnir i'r pwyllgor ystyried y ddeiseb hon.

### Cefndir

Mae'r ddeiseb yn galw am i daliadau'r dreth gyngor a godir ar bob perchennog cartref gwyliau yng Nghymru gael eu dyblu. Credir y dylai'r dreth gynyddol gael ei defnyddio gan yr awdurdodau sy'n casglu, naill ai i adeiladu tai fforddiadwy ar gyfer pobl leol sy'n prynu ty am y tro cyntaf, neu i roi benthyciadau di-log iddynt brynu tai o fewn eu hawdurdod am hyd at 20 y cant o werth y ty.

Cafodd y ddeiseb ei hystyried gyntaf gan y pwyllgor yng nghyfarfod y pwyllgor ar 6 Rhagfyr 2007. Cytunodd y pwyllgor i geisio cyngor cyfreithiol pendant i weld a oedd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru unrhyw bwer i wneud rheoliadau er mwyn galluogi awdurdodau lleol i gynyddu lefelau'r dreth gyngor yn hyn o beth.

Mae Is-adran y Gyfraith yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru wedi rhoi cyngor i'r pwyllgor ynglyn â'r ddeiseb hon. Amgaeir y cyngor hwn yn Atodiad A.

### Camau i'w cymryd gan y pwyllgor

Gofynnir i'r pwyllgor ystyried y cyngor cyfreithiol hwn a phenderfynu ar unrhyw gamau pellach sydd i'w cymryd.

### Gwasanaeth y Pwyllgorau

### Ionawr 2008